**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd '*Ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir yng Nghymru*'.**

**Ionawr 2013**

---

Rheoli perygl llifogydd arfordirol yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r holl awdurdodau rheoli llifogydd ac erydu arfordirol cysylltiedig yng Nghymru. Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn a'r cyfle i drafod y camau rydyn ni'n eu cymryd i ddiogelu'r arfordir yng Nghymru.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â chyfeiriad ein polisi cyfredol ac rwy'n falch o allu derbyn y mwyafrif ohonynt yn ddigamsyniol. Er bod angen ystyried rhai ohonynt ymhellach, rwy'n cefnogi bwriad y camau arfaethedig ac rwy'n credu y dylid cymryd camau i gyflawni'r canlyniad a fwriedir.

Wrth dderbyn yr argymhellion, rwy'n falch hefyd o nodi bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar weithredu nifer ohonynt.

Wrth gwblhau'r ymchwiliad, mae Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi dysgu cryn dipyn am y materion rydyn ni'n eu hwynebu. Rwy'n nodi bod yr adroddiad yn cyflwyno neges glir am bwysigrwydd cyfathrebu ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac ystyried y ffyrdd gorau o fynd i'r afael â'r problemau difrifol rydyn ni'n eu hwynebu. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo iddo ac rwy'n diolch i'r Pwyllgor am roi o'u hamser i gasglu'r dystiolaeth a chyflwyno'r canfyddiadau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol a grwpiau cymunedol i bennu'r ffordd orau o gyfleu'r peryglon rydyn ni'n eu hwynebu yng Nghymru a'r camau y gall pawb ohonom eu cymryd i'w rheoli. Er na allwn ddileu peryglon llifogydd neu erydu arfordirol yng Nghymru, drwy gydweithio gallwn eu lleihau a gwella'r ffordd rydyn ni'n paratoi, yn ymateb ac yn adfer mewn achosion o lifogydd ac erydu arfordirol.

Dros y ddalen rwyf wedi amlinellu fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad.

**Mae’r ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad i’w gweld isod:**

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd cyn gynted â phosibl o’i hymrwymiad hirdymor i raglen strategol barhaus o fonitro arfordiroedd rhanbarthol Cymru, ac amlinellu’n gyhoeddus sut y mae’n bwriadu i’r rhaglen honno ddatblygu yn y dyfodol, gan ystyried modelau llwyddiannus eraill yn yr UE. |

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llawn ac mae’n gweithio’n agos gyda’r rhanddeiliaid perthnasol i gyflawni hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwaith monitro arfordirol ers nifer o flynyddoedd, ac mae’n cytuno â’r datganiad yn nhystiolaeth Prifysgol Caerdydd, sef “*the need for a well grounded Strategy to inform consistent coastal defence and protection decisions based on sound science cannot be underestimated*”. Rydyn ni’n cydnabod bod canfyddiadau’r prosiect Mapio Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn gam mawr ymlaen o ran darparu’r setiau data cyson cenedlaethol cyntaf mewn perthynas ag erydu arfordirol. Fodd bynnag, mae mwy i’w wneud o hyd.

Caiff Canolfan Monitro Arfordirol Cymru (CMAC) ei hariannu’n llawn gan Lywodraeth Cymru a bydd yn parhau i gael ei hariannu yn 2013/14. Yn fuan bydd CMAC yn cyflwyno’r cynllun busnes ar gyfer parhau â’r gwasanaeth am bum mlynedd arall. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ar ddyfodol CMAC a datblygu rhaglen fonitro strategol ar gyfer arfordiroedd rhanbarthol ar sail yr achos busnes hwnnw ddechrau 2013.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae costau ychwanegol ynghlwm â’r argymhelliad hwn.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £136,000 i CMAC bob blwyddyn ac mae’n buddsoddi £100,000 bob blwyddyn pellach ar gyfer monitro’r arfordir. Bydd yr achos busnes ar gyfer parhau â gwasanaeth CMAC yn ystyried y costau, a byddant yn dylanwadu ar benderfyniad terfynol Llywodraeth Cymru. Byddai angen talu’r costau hyn o’r cyllidebau presennol.

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod y Cynlluniau Rheoli Traethlinau ail genhedlaeth terfynol a gymeradwyir ar gyfer Cymru’n adlewyrchu’n glir amcanion polisi’r Strategaeth Genedlaethol ac yn gysylltiedig â hi, ac y ceir cysylltiadau clir rhwng y Strategaeth a pholisïau rheoli adnoddau naturiol eraill.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr.

Nod y Cynlluniau Rheoli Traethlinau (SMP) ail genhedlaeth yw nodi’r dull cynaliadwy hirdymor o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol sy’n gwbl gyson ag amcanion rheoli perygl y Strategaeth Genedlaethol. Bydd y Cynlluniau Gweithredu SMP yn nodi rhaglen o weithgareddau ac ymyriadau i gyflawni polisïau SMP, a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i’w halinio â’r Strategaeth Genedlaethol fel rhan o’r broses gymeradwyo.

O ran y polisïau rheoli adnoddau naturiol eraill, mae amrywiaeth o strategaethau a chynlluniau ynghylch swyddogaethau’r cyrff cyflawni amgylcheddol ac Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd sy’n amlinelli’r ffordd y byddant yn rhoi swyddogaethau Llywodraeth Cymru ar waith. Mae anghenion rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol wedi’u cofnodi’n drylwyr yng Nghynllun Gofodol Cymru, adroddiad Llifogydd yng Nghymru yn y Dyfodol, Strategaeth yr Amgylchedd a’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Er y cafodd y strategaethau hyn eu hysgrifennu ar adegau gwahanol ac nad ydynt yn cyfeirio at ei gilydd yn uniongyrchol, maent yn weddol gyson.

Nid oes angen mawr i ailysgrifennu’r holl strategaethau a chynlluniau hyn ar unwaith i sicrhau ffordd gynhwysfawr o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae’n bwysig cymryd yr holl gamau gweithredu sydd wedi’u hamlinellu yn y dogfennau hynny mewn ffordd gyson, a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wneud hyn. Lle cynhelir adolygiadau o bolisïau, byddwn yn sicrhau bod gofynion rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn cael eu hymgorffori.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â’r argymhelliad hwn.

Caiff hyn ei ddatblygu fel rhan o’r rhaglen waith gyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

| |
|---|
| **Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dyrennir lefel briodol o adnoddau i gefnogi gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o fewn cyllideb y Corff Adnoddau Naturiol. |

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad yn llwyr, sy'n cyd-fynd â Chynllun Gofodol Cymru, Llifogydd yng Nghymru yn y Dyfodol, Strategaeth yr Amgylchedd a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru.

Bydd swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael eu trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru, a bydd yn awdurdod rheoli perygl llifogydd statudol o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac yn awdurdod rheoli perygl erydu arfordirol statudol o dan Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949. Bydd y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn hanesyddol wedi'i ddyrannu i Asiantaeth yr Amgylchedd i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn yn cael ei drosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er nad oes gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru na'r Comisiwn Coedwigaeth bwerau na dyletswyddau penodol ynghylch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, mae ganddynt ystod o swyddogaethau ategol. Mae'r rhain yn cynnwys, ymysg eraill, swyddogaethau cadwraeth, bioamrywiaeth, asedau tir sylweddol a rheoli tir, a fydd yn cael eu trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â'r argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi oddeutu £40 miliwn yn uniongyrchol bob blwyddyn i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, wedi'i rannu rhwng cyfalaf a refeniw. Yn 2012/13, dyrannodd Llywodraeth Cymru y cyllid canlynol i Asiantaeth yr Amgylchedd:

| | Cyfalaf | Refeniw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Asiantaeth yr Amgylchedd | 8.9m | 18m | 26.9m |

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch gofynion cyllid 2013/14 fel rhan o'r broses flynyddol o osod y gyllideb.

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

| |
|---|
| **Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd yn adrodd am ganlyniadau’r cynlluniau a’r gweithgareddau sy’n codi o’r Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, erbyn dechrau 2014. |

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, sy’n cyd-fynd â’n ‘*Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol*’.

Mae Adran 18 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd roi adroddiad i’r Gweinidog ynghylch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a Lloegr. Caiff y ddyletswydd hon ei throsglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru a disgwylir adroddiadau bob blwyddyn, gyda’r adroddiad cyntaf yng ngwanwyn 2014.

Yn ogystal â rhoi’r diweddaraf ar faterion rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, mae’n rhaid i’r adroddiad gynnwys gwybodaeth am gymhwyso’r Strategaeth Genedlaethol. Bydd canfyddiadau’r adroddiad yn cyfrannu tuag at y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio’r adolygiad a datblygu’r Strategaeth Genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio’n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i gytuno ar gynnwys yr adroddiad. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi a gwneir datganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi hynny.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â’r argymhelliad hwn.

Adroddiad statudol yw hwn sy’n ofynnol o dan adran 18 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru yn talu’r costau sydd ynghlwm â llunio a chyfieithu’r adroddiad.

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ymgysylltiad y cyhoedd a chynllun cyfathrebu gyda chyllid i wella ymwybyddiaeth gyffredinol o ddiogelu arfordiroedd fel mater o flaenoriaeth i Gymru gyfan, i gymunedau ac i’r swyddogion a’r gwleidyddion sy’n gyfrifol am gyflawni cynlluniau SMP ac amcanion y Strategaeth Genedlaethol ar lefel leol. Dylai’r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu hwn fod â’r nod o ddatblygu ac atgyfnerthu cefnogaeth eang ac amhleidiol i weithredu’r cynlluniau SMP a nodau’r Strategaeth Genedlaethol.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, sy’n cyd-fynd â’n Strategaeth Genedlaethol.

Mae’r Strategaeth Genedlaethol yn cynnwys yr amcan canlynol:

*Codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb pobl mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.*

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i wneud hyn drwy ddatblygu un man cyswllt cenedlaethol ar gyfer ymholiadau perygl llifogydd, sefydlu gwasanaeth cynghori ar lifogydd i Gymru a chefnogi awdurdodau rheoli perygl eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd yn weithredol drwy ymgyrch Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru, sydd wedi codi ymwybyddiaeth ac wedi ymgysylltu’n weithredol â chymunedau mewn ardaloedd perygl llifogydd. Rydyn ni’n bwriadu bod y gwaith hwn yn parhau.

Yn 2011, lluniodd Llywodraeth Cymru Becyn Cymorth Cynnwys Cymunedau, ar sail profiadau blaenorol. Roedd hyn yn canolbwyntio’n bennaf ar beryglon llifogydd, a byddwn yn gweithio i ehangu hyn i gynnwys peryglon erydu arfordirol.

Cydnabyddir bod yr iaith dechnegol a ddefnyddir i gyfathrebu am beryglon llifogydd ac erydu arfordirol a’r disgrifiad anghyson o debygolrwydd yr amryw beryglon yn rhwystr mawr rhag cynnwys a chyfathrebu â’r cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei hymdrechion i greu ffordd gyson ac annhechnegol o gyfleu’r peryglon i bawb. Ar ôl cytuno ar hyn, caiff ei hymgorffori yn y Pecyn Cymorth Cynnwys Cymunedau.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â’r argymhelliad hwn.

Ariennir y gwaith ar Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru drwy ddyraniad cymorth grant i Asiantaeth yr Amgylchedd a fydd yn cael ei drosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae’r gwaith ar yr iaith a ddefnyddir i gyfleu perygl llifogydd

wedi'i gynnwys yn y rhag-gynlluniau gwaith, ynghyd â'r gwaith i ddiweddaru'r Pecyn Cymorth Cynnwys Cymunedau.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eu dull strategol o ddiogelu arfordiroedd yn cynnwys sefydlu mecanweithiau cyflenwi sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth a dull 'Tîm Cymru'. Os yw'r Corff Adnoddau Naturiol am gymryd y swyddogaeth diogelu arfordiroedd, rhaid i gyfrifoldebau allweddol y corff gynnwys sicrhau cydlynu arbenigedd a rhannu arfer gorau ledled Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Genedlaethol.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi dyletswydd i gydweithredu ar awdurdodau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, a chefnogir hyn gan y Strategaeth Genedlaethol. Mae tystiolaeth ymarferol eisoes i'w weld o hyn lle mae awdurdodau lleol yn cydgysylltu ymdrechion i sicrhau mwy o werth am eu gwariant, gan gynnwys:

- awdurdodau lleol arfordirol yn ffurfio 'grwpiau arfordirol' sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion a chyfleoedd rheoli perygl arfordirol;
- crynhoi adnoddau i gaffael contractau monitro arfordirol ar y cyd, fel yn achos grwpiau arfordirol y De a'r Gogledd (yr ail o dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran cynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych;
- cydweithio i ariannu a llunio'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau.

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn rhoi dyletswydd oruchwylio ar Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, a gaiff ei throsglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru i alluogi'r corff i ymgymryd â'i rôl oruchwylio sydd wedi'i phennu drwy'r Strategaeth Genedlaethol. Un o rolau allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru fydd gweithio gyda CMAC a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau ac yn datblygu ymhellach.

Mae'r rôl oruchwylio yn cynnwys gofyniad penodol i arwain ar roi cyngor technegol a chefnogi'r awdurdodau rheoli perygl eraill.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â'r argymhelliad hwn.

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol i gydweithredu a rhannu gwybodaeth. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mabwysiadu rôl oruchwylio gyfredol Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio i ganfod a defnyddio ffynonellau cyllid newydd ar gyfer diogelu arfordiroedd: o gyllidebau adrannau ar draws y Llywodraeth a chan gyrff allanol, gan gynnwys rhai yn y sector masnachol a'r sector busnes, a'r rheini sy'n elwa o fentrau diogelu arfordiroedd drwy i'w hasedau economaidd gael eu diogelu.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi oddeutu £40 miliwn bob blwyddyn i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Hefyd, mae Cymru wedi elwa o raglen gyfredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gan dderbyn bron £50 miliwn o gyllid cydgyfeirio a chystadleurwydd.

Mae cyllid cyfalaf ychwanegol o £16 miliwn wedi cael ei ddyrannu dros y tair blynedd nesaf ar gyfer gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o Gronfa Fuddsoddi Seilwaith Cymru a chronfeydd canolog. Byddwn yn parhau i geisio cyllid uniongyrchol ychwanegol a gweithio mewn partneriaeth gyda adrannau eraill Llywodraeth Cymru i ariannu prosiectau ar y cyd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynlluniau yng Ngorllewin y Rhyl, Sir Ddinbych, a Bae Colwyn, Conwy, lle mae buddsoddi mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ategu buddsoddi mewn adfywio.

Mae rhaglenni a ariennir gan yr UE ar gyfer 2014-20 yn cael eu datblygu ac rydyn ni'n bwriadu ceisio cyllid ar eu cyfer lle bo'n bosibl. Cadarnhawyd y bydd y rhaglenni Cydweithredu Rhyngranbarthol (Interreg) a Life yn parhau y tu hwnt i 2013, a'r gobaith yw y gallwn geisio cymorth ar gyfer mentrau a fydd yn ein helpu i deall materion fel erydu arfordirol yn well.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Fuddsoddi Sengl, rydyn ni'n ystyried sut y gallai'r sectorau busnes a masnachol, yn ogystal â'r rheini sy'n elwa o fesurau diogelu'r arfordir, gynnig ffynhonnell gyllid amgen. Mae ymgynghoriad wedi'i drefnu ar fethodoleg arfaethedig yng ngwanwyn 2013 a fydd yn cynnwys sut gellid cyfrif y ffynonellau cyllid amgen hyn.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â'r argymhelliad hwn.

Caiff y gweithgareddau hyn eu datblygu fel rhan o'r rhaglen waith gyfredol.

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad pellach i’r Pwyllgor am weithredu’r Rhaglen Fuddsoddi Sengl. Awgrymir y dylid darparu diweddariad cynnydd cychwynnol yn hydref 2013.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llawn, sy’n cyd-fynd â’n Strategaeth Genedlaethol.

Mae’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu polisi cyllido cenedlaethol a methodoleg flaenoriaethu, sy’n targedu buddsoddiad at y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl. Yn gynharach eleni, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i dynnu cynrychiolwyr Asiantaeth yr Amgylchedd, yr awdurdodau lleol a Dŵr Cymru ynghyd i ystyried ffyrdd o wneud hyn a datblygu methodoleg i bennu’r cymunedau yng Nghymru sy’n wynebu’r perygl mwyaf.

Mae ymgynghoriad ar fethodoleg arfaethedig wedi’i drefnu ar gyfer gwanwyn 2013. Bydd Llywodraeth Cymru yn falch o roi diweddariad ar hynt y gwaith i ddatblygu’r Rhaglen Fuddsoddi Sengl yn hydref 2013 pan fydd canlyniad yr ymgynghoriad yn hysbys.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â’r argymhelliad hwn.

Caiff hyn ei ddatblygu fel rhan o’r rhaglen waith gyfredol.

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu’r Pwyllgor cyn gynted â phosibl am eu hasesiad o sut y gall gwersi a ddysgir o brosiectau braenaru yn Lloegr gael eu defnyddio yng Nghymru, ac a ydynt yn bwriadu cynnal prosiectau peilot tebyg.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llawn, sy’n cyd-fynd â’n Strategaeth Genedlaethol.

Yn fuan bydd Llywodraeth Cymru yn dod â grŵp cynghori ynghyd i edrych yn fanylach ar beryglon erydu arfordirol, gan adeiladu ar ganlyniadau’r prosiect Mapio Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol. Caiff asesu’r prosiectau Pathfinder ei gwblhau fel rhan o waith y grŵp hwn, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor yn hydref 2013.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â’r argymhelliad hwn.

Caiff hyn ei ddatblygu fel rhan o’r rhaglen waith gyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

| |
|---|
| **Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adolygu digonoldeb y darpariaethau cynllunio sy'n berthnasol i ddiogelu arfordiroedd, yn enwedig Nodiadau Cyngor Technegol 14 a 15, o fewn eu ffrydiau gwaith i ddiwygio system gynllunio Cymru. Dylid ystyried yn llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor. |

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn erioed ei bod yn debygol y angen adolygiad o TAN14 a TAN15 yn sgil datblygiadau polisi newydd sy'n codi o agweddau ar Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Cynllunio Gofodol Morol, y prosiect Mapio Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol, a'r diwygiadau i Gynlluniau Rheoli Traethlinau.

Fodd bynnag, nes i amcanion y meysydd polisi eraill hyn gael eu pennu'n glir a'u mabwysiadu'n gyhoeddus, mae'n rhy gynnar i ddechrau adolygiad ffurfiol. Gallai adolygiad heb dystiolaeth gadarn i gynnig eglurder a phwrpas droi'n ffordd o oedi rhag llunio cynlluniau a strategaethau eraill sy'n dibynnu ar bolisi cynllunio cenedlaethol. Gallai hyn danseilio buddsoddi ac adfywio y mae mawr ei angen ledled Gymru mewn ardaloedd lle nad yw materion llifogydd ac erydu arfordirol yn effeithio arnynt. Felly, nid dyma'r amser i ddechrau adolygiad ffurfiol o TAN14 a TAN15.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â'r argymhelliad hwn.

Caiff hyn ei ddatblygu fel rhan o'r rhaglen waith gyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

| |
|---|
| **Argymhelliad 11.** Er mwyn sicrhau y gweithredir y Cynlluniau Rheoli Traethlinau'n amserol, mae angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ar frys y gwaith o gwblhau'r asesiadau gofynnol o'r cynlluniau rheoli traethlinau sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd flaenoriaethu'r gwaith o ganfod a chreu cynefinoedd cydbwyso addas. |

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llawn, sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gwblhau asesiadau priodol y Cynlluniau Rheoli Traethlinau ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen i wneud y gwaith gofynnol hwn. Rwyf wedi gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd ddatblygu rhaglen creu cynefinoedd i weithredu'r mesurau digolledu sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm â'r argymhelliad hwn.

Caiff hyn ei ddatblygu fel rhan o'r rhaglen waith gyfredol.